**COFNOD A BENDERFYNIADAU GWEITHREDOL**

**Y CABINET**

**DYDD MERCHER, 2 MEDI 2020**

**Cabinet Members:**

Cynghorwyr:: R.G.Jones (Cadeirydd), C.Clement-Williams, D.Jones, E.V.Latham, A.R.Lockyer, P.A.Rees, P.D.Richards, A.Wingrave a/ac L.Jones

**Swyddogion yn bresennol:**

S.Phillips, A.Evans, A.Jarrett, H.Jenkins, N.Pearce, K.Jones, C.Griffiths, S.Brennan, S.Blewett, S.Curran, A.Manchipp, C.Davies, N.Headon, J.Woodman-Ralph a/ac T.Davies

---

1. **PENODI CADEIRYDD**

Cytunwyd y dylid penodi'r Cynghorydd R G Jones yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

2. **Y DIWEDDARAF AM Y GYLLIDEB A MONITRO**

**Penderfyniadau:**

1. Cymeradwyo'r cynigion arfaethedig i symud arian wrth gefn a throsglwyddo arian o'r gyllideb, fel y'u nodwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

2. Nodi'r problemau gweithredol ac ariannol fel y'u nodwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

3. Bod y cyngor yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru, yn unol â deddfwriaeth, rheoliadau a chyfarwyddiadau, i ddarparu gwasanaethau yn ystod y cyfnod heriol hwn.

4. Nodi'r grantiau ychwanegol a dderbyniwyd, fel y'u nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

5. Bod y cyngor yn parhau i geisio cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i dalu am ganlyniadau COVID-19 megis gwariant uwch, colli incwm, cost uwch Cymorth Treth y Cyngor a diffygion casgliadau treth y cyngor, sy'n cael effaith andwyol ar gyllid a gweithgarwch y cyngor.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Diweddaru Cyllideb y Cyngor ar gyfer 2020/21 a rhoi gwybod i'r Aelodau am y risgiau ariannol sy'n deillio o COVID-19.

**Rhoi Penderfyniadau ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

## 3. RHESTR O GONTRACTWYR CYMERADWY

Diwygio'r Rhestr Gymeradwy fel a ganlyn:

Cwmnïau i'w **hychwanegu** at Restr y Contractwyr Cymeradwy

| **Cwmni** | **Categori** |
|---|---|
| Omega Environmental Services Ltd.<br><br>Xeiad Ltd. | 31<br><br>71, 72, 73, 74, 76, 88, 90,<br>111 Asesu strwythurau ar gyfer Asesiadau ac<br>Asesu Strwythur<br>111 Arolygiad o Ofod Cyfyngedig<br>111 Arolwg Cerbyd Awyrol Di-griw /Archwiliadau |

Cwmni i'w **ychwanegu at gategori ychwanegol** ar Restr y Contractwyr Cymeradwy

| **Cwmni** | **Categori** |
|---|---|
| C G L Services Ltd. | 13, 15 |

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Sicrhau bod y Rhestr o Gontractwyr Cymeradwy yn gyfredol a, hyd y gellir, sicrhau proses gaffael gystadleuol, ac at ddiben cyflenwi Rhestr o Gontractwyr Cymeradwy i'w gwahodd i dendro o fewn y categori perthnasol.

**Rhoi Penderfyniadau ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

4. **EITEMAU BRYS**

Oherwydd yr angen i ymdrin â'r materion sydd wedi'u cynnwys yng Nghofnod Rhif. 5 isod, cytunodd y Cadeirydd y gellid codi hyn yn y cyfarfod heddiw fel eitem frys yn unol ag Adran 100B (4)(b) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

**Rheswm:**

Oherwydd yr elfen amser.

5. **EHANGU GORCHMYNION AMDDIFFYN MANNAU CYHOEDDUS YN NHRAETH ABERAFAN**

**Penderfyniad:**

Gweithredu'r Gorchmynion Diogelu Mannau Cyhoeddus a nodir yn Atodiadau 2 a 3 i'r adroddiad a ddosbarthwyd o 19 Hydref 2020.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Sicrhau y gellir ymestyn Gorchmynion 2017, sy'n gweithredu'n dymhorol ar hyn o bryd ar draeth a phromenâd Aberafan, o fewn yr amser penodedig ac y gellir parhau â'r camau gorfodi hynny.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

**Ymgynghoriad:**

Mae'r eitem hon wedi bod yn destun ymgynghoriad allanol.

## 6. MYNEDIAD I GYFARFODYDD

**PENDERFYNWYD:** Yn unol â Rheoliad 4(3) a (5) Offeryn Statudol 2001 Rhif 2290, gwaherddir y cyhoedd ar gyfer yr eitem fusnes ganlynol a oedd yn debygol o gynnwys datgelu gwybodaeth eithriedig fel a ddiffinnir ym Mharagraff 14 Rhan 4 Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

## 7. HEN SAFLE LIDO AFAN (YN EITHRIEDIG DAN BARAGRAFF 14)

**Penderfyniad:**

Rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Pennaeth Eiddo ac Adfywio, mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd a'r aelod perthnasol o'r Cabinet, i waredu hen safle Afan Lido a safle'r maes parcio gorlif am isafswm pris gwerthu fel y nodir yn yr adroddiad preifat a ddosbarthwyd, neu unrhyw ffigur arall sy'n uwch, yn amodol ar benderfyniad y Pennaeth Eiddo ac Adfywio bod swm o'r fath o'r gwerth gorau i'r cyngor.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Galluogi gwaredu hen safle Afan Lido a safle'r maes parcio gorlif.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

**Ymgynghoriad:**

Mae'r eitem hon wedi bod yn destun ymgynghoriad ag aelodau'r ward leol.

8. **TIR YN IARD BURROWS (YN EITHRIEDIG DAN BARAGRAFF 14)**

**Penderfyniadau:**

1. Cymeradwyo'r cynnig a argymhellir fel y'i nodir ym mharagraff 7 o'r adroddiad preifat a ddosbarthwyd.

2. Rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Pennaeth Eiddo ac Adfywio fel y'i nodir ym mharagraff 20 o'r adroddiad preifat a ddosbarthwyd.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Caniatáu gwerthu eiddo dros ben ac ennill derbynneb cyfalaf.

**Rhoi Penderfyniadau ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

**Ymgynghoriad:**

Mae'r eitem hon wedi bod yn destun ymgynghoriad ag aelodau'r ward leol.

9. **SAFLE BLAENBAGLAN (YN EITHRIEDIG DAN BARAGRAFF 14)**

**Penderfyniad:**

Y dylid nodi'r adroddiad.

**CADEIRYDD**